



Ysgol Gymraeg Trelyn Polisi Ymddygiad

Nod yr Ysgol

Prif nod yr ysgol hon yw darparu addysg eang, gytbwys, gydlynol, berthnasol a gwahaniaethol ar gyfer pob plentyn. Bydd hyn yn galluogi'r plant i feddiannu sgiliau bywyd er mwyn eu paratoi at gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd yr oedolyn.

Nod y Polisi

Mae angen canllawiau clir ar bob athro er mwyn sicrhau cysondeb yn y dysgu a'r addysgu o fewn yr ysgol.

Defnyddiwn y polisi hwn law yn llaw a'r polisi diogelu plant a pholisi gwrth fwlio'r ysgol.

Mae Ysgol Gymraeg Trelyn wedi'i hymrwymo i greu amgylchedd lle mae ymddygiad eithriadol wrth wraidd dysgu effeithiol. Disgwylir i bawb gynnal safonau ymddygiad, i fod yn gyfrifol am eu hymddygiad ac i annog eraill i ymddwyn yn yr un modd.

Ein nod felly yw

- Creu diwylliant o ymddygiad rhagorol
- Sicrhau fod disgyblion yn cael eu trin yn deg, yn cael eu parchu ac i feithrin perthynas dda
- Osgoi rhoi sylw i ddisgyblion am ymddygiad gwael
- Helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad ac i gymryd cyfrifoldeb dros eu hymddygiad
- Adeiladu cymuned garedig, llawn hiwmor, ufudd sy'n dangos empathi at eraill
- Gwella perthynas rhwng ein gilydd a'r gymuned
- Sicrhau mai ymddygiad rhagorol yw'r disgwyliadau gan bawb

Pwrrpas y polisi:

I roi gweithdrefnau syml, ymarferol i oedolion a disgyblion sy'n cydnabod ymddygiad arferol ac atgyfnerthu ymddygiad da mewn ffordd bositif. Bydd y polisi yn hyrwyddo hunan-ddisgyblaeth a hunan-hyder. Bydd yr holl staff yn:

1. Tynnu sylw at reolau cymreictod, ymdrech a pharch
2. Modelu ymddygiad bositif ac adeiladu perthynas dda gyda'r disgyblion.
3. Cynllunio gwersi sy'n ddiddorol, yn heriol ac yn cwrdd âg anghenion pob disgybl
4. Sicrhau fod clod yn gorbwyso unrhywbeth negyddol o leiaf o raddfa 5:1
5. Cyfarch y plant wrth y drws
6. Bod yn bwyllog a rhoi amser i'r disgybl wrth fynd drwy'r camau. Ceisio osgoi arwain at ymddygiad gwael cyn rhoi unrhyw gosb.
7. Osgoi tynnu sylw at ymddygiad gwael

Bydd yr uwch-dim rheoli yn:

1. Yn cwrdd â'r plant wrth gyrraedd yn y bore
2. Yn rhoi cymorth i staff mewn cyfarfodydd ffurfiol ac wrth sgwrsio gyda disgyblion
3. Yn dathlu disgyblion a staff sy'n ymdrechu uwch na'r disgwyliadau
4. Annog defnydd o nodiadau adref

5. Rhannu arfer dda
6. Sicrhau hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer staff e.e Team Teach

Gwobrwyo ac adnabod ymdrech

Rydym yn gwobrwyo plant sy'n ymddwyn yn uwch na'r disgwyliadau.

Mae canmol mewn ffordd bositif yn ffordd hanfodol ac effeithiol o ddatblygu amgylchedd bositif ar lawr y dosbarth.

Trwy ddilyn y rheolau yma ac ymddwyn yn wych gall y plant ennill:

- Pwyntiau Dojo yn arwain at Bencampwr Dojo yr wythnos
- Tystysgrifau iaith am ddefnydd Cymraeg cywir
- Gwobr amser cinio am ymddygiad gwych amser cinio – cerdiau Dojo oddi wth y menywod cinio i fynd nol i'r dosbarth
- Seren yr wythnos am waith ac ymddygiad campus drwy'r wythnos
- Cymro/Cymraes yr Wythnos
- Tocynnau iaith am ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd anffurfiol
- Nodyn/neges adref er mwyn hysbysu rhieni am ymddygiad a gwaith gwych

Ymgysylltu ac ymrwymo gyda'r addysgu yw'r prif nod ar lawr y dosbarth. I'r mwyafrif o ddisgyblion ailgyferirio neu eu hatgoffa yw'r cyfan sydd ei angen. Dylid dilyn y camau yn ofalus gan ystyried anghenion yr unigolion. Dylid canmol yr ymddygiad yr hoffem weld. Ni ddylid rhoi sylw i'r plant sy'n ceisio denu sylw. Rhoddir amser i bob disgybl gymryd cyfrifoldeb rhwng pob cam. Ni ddylid neidio ymlaen drwy'r camau am ymddygiad lefel isel dro ar ol tro.

Dylai'r plant fod yn gyfrifol am eu hymddygiad. Disgwylir i staff ddelio gydag ymddygiad heb ddirprwyo i eraill. Bydd staff yn dilyn y camau priodol isod er mwyn delio neu ymateb i ymddygiad gwael.

1. Ailgyfeirio

Bydd disgyblion yn derbyn annogaeth positif i barhau/cael eu harwain ar y trywydd cywir/gair o garedigrwydd.

2. Atgoffa

Caiff y disgybl ei atgoffa o'r rheolau, cymreictod, ymdrech a pharch. Ailadrodd os oes angen. Ceisio arwain y disgybl ar y trywdd cywir er mwyn osgoi symud at y cam nesaf. Bydd yr oedolyn yn gwneud y disgybl yn ymwybodol o'i ymddygiad. Mae gan y disgybl ddewis i wneud y peth cywir.

Ar gyfer y mwyafrif o ddisgyblion ailgyfeirio ac atgoffa yn unig sydd angen. Petai disgyblion yn anwybyddu'r ymgais yma, yna caiff cam 3 - rhybudd ac yna cam 4 'amser i feddwl' eu defnyddio. Bydd oedolion yn rhoi rhybudd mewn modd bwyllog.

Ni ddylid ymateb mewn ffordd grac at ymddygiad gwael gan na fydd hyn o gymorth i'r oedolyn na'r disgybl.

3. Rhybudd

Yma rhoddir rhybudd clir ar lafar gan sicrhau fod y plentyn yn deall y canlyniadau os y byddant yn parhau. Os yn bosib dylid rhoi rhybudd ar lafar ac yn breifat i'r disgybl yn amlinellu ei ymddygiad ac yn amlinellu yn glir yr hyn a fydd yn digwydd petai'r disgybl yn parhau. Caiff y digybl ei atgoffa o ymddygiad da blaenorol er mwyn profi y gallant wneud y dewis cywir. Dylai'r ymyrraeth yma gymryd tua 30 eiliad.

4. Amser i feddwl

Bydd y disgybl yn cael amser i siarad gyda'r oedolyn i ffwrdd wrth ddisgyblion eraill. Caiff y disgybl ei atgoffa o'r disgwyliau. Gofynnir i'r disgybl ystyried eu cam nesaf. Cant eu hatgoffa o ymddygiad da blaenorol. Dyma'r cyfle olaf i'r disgybl ymgysylltu gyda'r addysgu/dilyn cyfarwyddiadau. Ni ddylid sefyll tu allan i ddosbarthiadau oni bai bod angen i'r disgybl gael saib/ amser i'w hunain mewn man diogel.

5. Cyfeirio at rywun arall

Petai'r holl gamau uchod yn aflwyddiannus, neu petai disgybl yn gwrthod cymryd amser i'w hunain caiff y disgybl ei gyfeirio at Mr Jones, Mr Owen, Mrs Griffiths neu Mrs Davies fel aelodau o'r uwch-dîm rheoli.

6. Cyfarfod i drafod

Dylid cynnal cyfarfod cyn y sesiwn nesaf. Gall aelod arall o'r uwch-dîm fod yn rhan o'r cyfarfod os oes angen a dylid dilyn y 6 cwestiwn wedi eu sgriptio.

- Beth sydd wedi digwydd?
- Sut oeddet ti'n teimlo?
- Sut oedd y person arall yn teimlo?
- Pwy arall sydd wedi cael ei effeithio gan hyn?
- Beth ddylen ni wneud er mwyn gwneud popeth yn iawn?
- Sut allwn ni wneud pethau yn wahanol y tro nesaf?

Yma hefyd dylid sicrhau na effeithir ar berthynas bositif rhwng yr oedolyn a'r disgybl. Dylai'r cyfarfod yma gymryd ychydig funudau yn unig.

7. Cyfarfod Ffurfiol

Dyma lle y cynhelir cyfarfod rhwng yr athro a'r disgybl lle mae rheswm i bryderu yn ddifrifol am ymddygiad. Caiff targedau a chynllun ei greu a'i fonitro am bythefnos. Trafodir y canlyniadau petai ymddygiad y disgybl ddim yn cyrraedd y targedau. Rhoddir ail-gyfle i'r disgybl ymgymryd a'r targedau. Gall y rhiant fod yn rhan o'r broses yma.

Rydym yn hybu partneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol. Unwaith y bydd ymddygiad plentyn yn achosi pryder byddwn yn cysylltu a rhieni. Penderfynwn ar y cyd pa strategaethau i'w defnyddio er mwyn sicrhau cysondeb. Cysylltwm hefyd yn yr un ffordd pan fydd ymddygiad plentyn yn gwella, yn enwedig pan ddaw hyn fel canlyniad i ymdrech fawr ar ran y plentyn.

Llais y Dysgwyr:

Yn unol â'r polisi, gobaith y dysgwyr yw bod yn rhan o ysgol ble

- Dangosir parch at bawb a phopeth
- Mae pob aelod o gymuned yr ysgol yn ymwybodol o'r rheolau a'r camau
- Mae pawb yn cael eu trin yn deg

Rheolau: Cymreictod
Ymdrech
Parch



Bydd holl oedolion a phlant Trelyn yn dilyn y rheolau yma.

Bydd oedolion a phlant Trelyn yn trin ei gilydd gyda pharch, yn bositif a gyda chysondeb.

Tynnir sylw at ymddygiad da a chyfeirir at y plant sy'n ymddwyn yn dda yn gyson.

Trwy ddilyn y rheolau yma ac ymddwyn yn wych gall y plant ennill:

- Pwyntiau Dojo yn arwain at Bencampwr Dojo yr wythnos
- Tystysgrifau iaith am ddefnydd Cymraeg cywir
- Gwobr amser cinio am ymddygiad gwych amser cinio – cerdiau Dojo oddi wth y menywod cinio i fynd nol i'r dosbarth
- Seren yr wythnos am waith ac ymddygiad campus drwy'r wythnos
- Cymro/Cymraes yr Wythnos
- Tocynnau iaith am ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd anffurfiol
- Nodyn/neges adref er mwyn hysbysu rhieni am ymddygiad a gwaith gwych

Pan fydd plant yn torri'r rheolau dyma'r camau fyddwn yn dilyn:

Cam	Gweithred
Ailgyfeirio	Anogaeth i weithio, arwain yn y cyfeiriad cywir, gair o garedigrwydd
Atgoffa	Atgoffa o'r rheolau, cymreictod, caredigrwydd, cyfrifoldeb a pharch. Ailadrodd os oes angen. Ceisio arwain er mwyn osgoi symud at y cam nesaf
Rhybudd	Rhybudd clir ar lafar gan sicrhau fod y plentyn yn deall y canlyniadau os y byddant yn parhau.
Amser i feddwl	Rhoi amser i'r plentyn fyfyrrio oddi wrth eraill. siarad yn breifat a rhoi cyfle olaf iddynt ymgysylltu. Bod yn bositif wrth roi'r cyfle yma.
Cyfeirio at rywun arall	Os fydd y plentyn yn cyrraedd y cam yma, caiff ei anfon i ystafell Mr Jones, Mr Owen, Mrs Davies neu Mrs Griffiths am weddill y sesiwn. Bydd angen cyfnod o gymodi byr ar ôl gwneud hyn a chedwir cofnod o bob cyfeiriad.
Cyfarfod i drafod	Dylid cynnal cyfarfod cyn y sesiwn nesaf. Gall aelod arall o'r uwch-dim fod yn rhan o'r cyfarfod os oes angen a dylid dilyn y 6 cwestiwn wedi eu sgriptio
Cyfarfod Ffurfiol	Cyfarfod rhwng yr athro, a'r pennaeth wedi ei recordio gan roi targedau i'r plentyn a fydd yn cael eu monitro dros gyfnod o bythefnos.



Ysgol Gymraeg Trelyn Behaviour Policy

Aim of the School

The main aim of this school is to provide a broad, balanced, coherent, relevant and differentiated education for every child. This will enable the children to acquire life skills to prepare them for the opportunities, responsibilities and experiences of adult life.

Aim of the Policy

All teachers need clear guidelines to ensure consistency of teaching and learning within the school.

We use this policy in conjunction with the child protection policy and the school's anti-bullying policy. Ysgol Gymraeg Trelyn is committed to creating an environment where exceptional behavior is at the heart of effective learning. Everyone is expected to uphold standards of behavior, to take responsibility for their behavior and to encourage others to behave in the same way.

Our aim is therefore

- *Creating a culture of exemplary behavior*
- *Ensure that pupils are treated fairly, are respected and to foster good relationships*
- *Avoid paying attention to pupils for poor behavior*
- *Help pupils to control their behavior and to take responsibility for their behavior*
- *Build a kind, humorous, obedient community that shows empathy for others*
- *Improve relationships between ourselves and the community*
- *Make sure that everyone's expectations are excellent behavior*

Purpose of the policy:

To give adults and pupils simple, practical procedures that recognize normal behavior and reinforce good behavior in a positive way. The policy will promote self-discipline and self-confidence

All staff will:

1. *Highlight the rules of Welshness, effort and respect*
2. *Model positive behavior and build good relationships with pupils.*
3. *Plan lessons that are interesting, challenging and meet the needs of all pupils*
4. *Ensure that praise outweighs anything negative of at least a 5: 1 scale*
5. *Greet the children at the door*
6. *Be calm and give the pupil time to go through the steps. Try to avoid leading to bad behavior before imposing any penalty.*
7. *Avoid highlighting bad behavior*

The senior management team will:

1. *Meet the children when they arrive in the morning*
2. *Support staff in formal meetings and in conversation with pupils*
3. *Celebrate pupils and staff who strive for expectations*
4. *Encourage the use of messages and certificates to home*
5. *Share good practice*

6. Secure necessary training for staff eg Team Teach

Reward and recognize effort

We reward children who behave above expectations.

Praise in a positive way is an essential and effective way of developing a positive classroom environment.

By following these rules and acting well the children can gain:

- Dojo points lead to Dojo Champion of the week*
- Language certificates for correct Welsh language use*
- Lunchtime award for great lunchtime behavior - Dojo cards from lunch ladies to go back to class*
- Star of the week for excellent work and behavior all week*
- Welsh speaker of the week*
- Language tickets for using the language in informal situations*
- A note / message home to inform parents of great behavior and work*

Engaging with teaching is the main goal in the classroom. Most pupils need to be redirected or reminded and that is often all that is needed. The steps should be carefully followed taking into account the needs of the individuals. The behavior we would like to see is commendable. Attention should not be paid to the children who are trying to attract attention. Each pupil is given time to take responsibility at each stage. The steps for low-level behavior should not be repeated over and over again.

The children should be responsible for their behavior. Staff are expected to deal with behavior without delegation to others. Staff will follow the appropriate steps below to deal with or respond to poor behavior.

1. Redirect

Pupils will receive positive encouragement to continue / be led on the right path / word of kindness.

2. Reminders

The pupil is reminded of the rules, Welshness, effort and respect. Repeat if necessary. Try to guide the pupil on the right foot to avoid moving to the next step. The adult will make the pupil aware of their behavior. The pupil has a choice to do the right thing.

For the majority of pupils, redirects and reminders are all that is needed.

If pupils ignore this attempt, then step 3 - alert and then step 4 'think time' will be used.

Adults give caution in a measured way.

Bad behavior should not be responded to in an angry way as this will not help the adult or the pupil.

3. Warning

Here a clear verbal warning is given ensuring the child understands the consequences if they continue. If possible the pupil should be given a verbal and private warning outlining his/her behavior and clearly outlining what will happen should the pupil continue. The pupils are reminded of previous good behavior to prove that they can make the right choice. This interruption should take about 30 seconds.

4. Time for reflection

The pupil will have time to talk to the adult away from other pupils. The pupil is reminded of the expectations. The pupil is asked to consider their next step. They are reminded of previous good behavior. This is the last opportunity for the pupil to engage in teaching/follow instructions.

Standing outside classes should only take place when the pupil needs a break / time in a safe place.

5. Refer to someone else

Should all of the above actions prove unsuccessful, or if a pupil refuses to take time for themselves the pupil will be referred to Mr Jones, Mr Owen, Mrs Griffiths or Mrs Davies as members of the senior management team.

6. Meeting to discuss

A meeting should be held before the next session. Another member of the senior team may be involved if necessary and the 6 scripted questions should be followed.

- What has happened?*
- How did you feel?*
- How did the other person feel?*
- Who else has been affected by this?*
- What should we do to get it right?*
- How can we do things differently next time?*

Here too it should be ensured that a positive relationship between the adult and the pupil is not affected. This meeting should only take a few minutes.

7. Formal Meeting

This is where a teacher-pupil meeting is held where there is reason to seriously worry about behavior. Targets and a plan are created and monitored for two weeks. The consequences are discussed should the pupil's behavior not reach the targets. The pupil is given a second chance to take on the targets. The parent can be involved in this process.

We promote home-school partnership. Once a child's behavior causes concern we will contact parents. We decide collectively what strategies to use to ensure consistency. We also connect in the same way when a child's behavior improves, especially when it comes as a result of a lot of effort on the part of the child.

Learner Voice:

- In accordance with the policy, learners hope to be part of a ball school*
- Respect for everyone and everything*
- All members of the school community are aware of the rules and actions*
- Everyone is treated fairly*

Ysgol Gymraeg Trelyn : Concise Behaviour Policy



Rules: Welsh Ethos
Effort
Respect

All adults and children in Trelyn follow these rules.

All adults and children treat each other with respect, positively and consistently.

By following these rules and by behaving over and above the expectation children can win:

- *Dojo points, leading to Dojo Champion of the week*
- *Language Certificates for correct use of Welsh Language*
- *Lunchtime award for excellent behaviour lunchtime*
- *Star of the week for excellent work and behaviour all week*
- *Welsh speaker of the week*
- *Language tickets given for use of Welsh language in informal situations*
- *Notes home to inform parents of excellent work/behaviour*

When children don't follow these rules these are the steps we will follow:

Step	Action
Redirect	Gentle encouragement, a 'nudge' in the right direction
Reminder	A reminder of the expectations: kindness, responsibility and respect
Caution	Clear verbal caution delivered privately wherever possible, making pupil aware of their behaviour and outlining consequences if they continue.
Time Out	Give the pupil a chance to reflect away from others. Speak to the pupil privately and give them a final opportunity to engage. Offer a positive choice to do so.
Internal referral	At this point the pupil will be referred to Mr Jones, Mrs Davies, Mrs Griffiths or Mr Owen's room for the remainder of the session. A short reconciliation should take place immediately after the lesson.
Reparation meeting	A restorative meeting should take place before the next lesson. If unsuccessful teacher should call on support from Mr Jones or Mrs Owen.
Formal Meeting	Meeting with the pupil, teacher and Mrs Owen. Targets decided on and monitored over course of two weeks

L Owen

Pennaeth: Mrs Liz Owen

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mr Nick Waythe _____

Dyddiad: 06/03/18

Diweddarwyd 29/03/2022



Discipline - Our Steps



When children don't follow our school rules these are the steps we will follow:

1. Reminder—Remind the pupil of our values and what is expected of them:
- Welshness, effort and respect
2. Move away from the group or to a specific location in the classroom/on the carpet.
3. If the pupil continues to challenge — 'A Time Out will occur' where the teacher will give the pupil a chance to reflect away from others.
- Speak to the pupil privately and give them a final opportunity to engage.
Positive, constructive communication following the PIVOTAL script.
4. A discussion will occur outside during break time with the Leaders of Learning (Mr Owen or Mrs Griffiths)
5. A discussion will occur with the Deputy head or the Headteacher (Mr Jones or Mrs Owen)
- Parents will be informed of the steps taken over the phone or at the end of the day.

If the pupil reaches 'Step 2' then they will miss their play at break time.

Welshness

★ **Cymreictod**

Respect

★ **Parch**

Effort

★ **Ymdrech**

Pupils will earn Dojo Points by showing:






Camau Disgyblu



Gosodwn gamau disgyblu priodol i'r plant hynny sydd yn herio awdurdod ac sydd yn dewis peidio a dilyn y rheolau. Pwysleisw'n bod y camau olaf yn digwydd os oes herio parhaus yn digwydd!

1. Rhybudd—Atgoffa'r disgybl o'r camau disgyblu a'r disgwyliadau—
-Cymreictod, Ymdrech a Parch
2. Symud o'r grwp neu carped i fan penodol ar ben ei hunain yn y dosbarth.
3. Os yw'r disgybl yn parhau i herio—Angen sgwrs yn dilyn sgript Pivotal
- Sgwrs adeiladol gyda'r athro dosbarth am ddisgwyliadau'r ysgol
4. Trafod gyda Arweinwyr y Dysgu (Mr Owen neu Mrs Griffiths)
5. Siarad gyda'r Dirprwy neu'r Pennaeth (Mr Jones neu Mrs Owen)
- Bydd yn rhaid hysbysu rhieni drwy alwad ffôn neu ar lafar.

Os yw'r disgybl yn cyrraedd Cam 2 yna maent yn eistedd ar y fainc amser chwarae...

★ **Cymreictod**

★ **Parch**

★ **Ymdrech**

Bydd disgyblion yn derbyn pwyntiau DoJo am ddangos:




Atodiad B / Appendix B – Cerdyn Sgript Pivotal / Pivotal Script Cards



Atodiad C / Appendix C – Canllawiau Pivotal i Athrawon Cyflenwi / Pivotal Guidelines for Supply Teachers

Canllawiau Pivotal i Athrawon Cyflewnwi  **Pivotal Education**
Behaviour Specialists

Cwrdd a chyfarch

Ar yr iard / dyletswydd giat:

- Cyfarch y disgyblion ar y ffordd i mewn (Sgwrs).

Yn y dosbarth:

- Cerddoriaeth i chwarae wrth i'r disgyblion ddod i mewn.
- Athrawon i sefyll wrth y drws er mwyn cyfarch (Gweler y poster cyfarch) a siarad gyda phôb disgybl wrth iddynt ddod mewn i'r dosbarth.

Ymddygiad

- Cofiwch ddilyn y Camau Disgyblu sydd i'w weld ym mhob dosbarth (**Peidiwch a gofyn i ddisgyblion i sefyll y tu allan i'r drws pan yn cam ymddwyn**)
- Rhowch sylw i ddisgyblion sy'n ymddwyn yn dda, yn hytrach na' enwi'r disgyblion trafferthus.
- Ceisiwch **osgoi gweiddi** at y disgyblion yn y dosbarth.
- Gellir gwobrwyo disgyblion am ymddygiad da drwy roi pwyntiau dojo neu symud enwau/gwynebau ar siartiau ymddygiad.

Cwmni y Ffôr a'r Ffôr
Ysgol Gymraeg Trefyn

Atodiad Ch / Appendix Ch – Symudiadau Cyfarch y Bore / Morning Greeting Movement Cards

